POLISI GRANTIAU

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Rheoli fersiynau
Cymeradwywyd y fersiwn hon (1) o Bolisi Grantiau Cymwysterau Cymru ar 8 Mehefin 2016 gan y Bwrdd Rheoli.

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn, a bydd y broses yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd y polisi, a pha mor gyfredol ydyw. Disgwylir iddi gael ei hadolygu nesaf erbyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf. Yn y cyfamser croesewir adborth ar y polisi hwn. Dylech anfon eich sylwadau i procurement@qualificationswales.org.

Mae'r polisi hwn ar gyfer staff Cymwysterau Cymru, derbynwyr grantiau a derbynwyr posibl grantiau Cymwysterau Cymru. Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y bydd Cymwysterau Cymru yn eu dilyn pan fydd yn ystyried cynnig grant.

CYFLWYNIAD

1. Mae Adran 50 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (y Ddeddf) yn galluogi Cymwysterau Cymru i:

   “roi grantiau i berson os yw Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Cymwysterau Cymru”

   Gall Cymwysterau Cymru dyfarnu grantiau er mwyn helpu i gyflawni ei brif nodau:

   - sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
   - ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru

   Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol at ddiben cyflawni ein prif nodau, byddwn yn ystyried yr wyth mater y cyfeirir atynt yn y Ddeddf

EGWYDDORION CYFFREDINOL

2. Pam y byddai Cymwysterau Cymru yn darparu arian grant?

Fel rheoleiddiwr sy'n gyfrifol am weithredu'r system gymwysterau yng Nghymru yn effeithiol, efallai y byddwn yn dewis defnyddio arian grant fel rhan o'n pecyn cymorth polisi i ymyrryd er mwyn gwella effeithiolrwydd cyffredinol.

Er enghraifft, mae'r Polisi Cymwysterau Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog, wrth ystyried dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg, yn nodi y gall Cymwysterau Cymru ddarparu cymorth, megis cymorth ariannol, i gyrff dyfarnu i'w cynorthwyo i ateb y galw am gymwysterau a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel enghraifft bellach, pan fyddwn wedi cyflwyno cymwysterau newydd, gallwn ddarparu cymorth i helpu dysgwyr.

3. Sut y bydd Cymwysterau Cymru yn dyrannu ac yn monitro arian grant?

Byddwn yn dyfarnu ac yn rheoli ein grantiau yn unol â'r egwyddorion arfer gorau a nodir yn Atodiad 5.1 ‘Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’.

Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru

Yn benodol:

- rhaid talu arian grant yn unol â thelerau'r cytundeb grant
- rhaid i dderbynwyr grant gyflwyno hawliadau a gwblhawyd yn foddhaol gyda thystiolaeth ategol
- dylid gwneud taliadau yn erbyn amserlen
- y swyddog cyfrifyddu (Prif Weithredwr) sy'n gyfrifol am sicrhau bod derbynwyr grantiau yn gymwys ac yn defnyddio'r grant yn y ffordd a fwriedir o dan y cytundeb grant
- bod â dealltwriaeth dda o ffynonellau incwm eraill y derbynnydd grant er mwyn osgoi dyblygu cyllido
- sicrhau bod hawliau mynediad statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'u nodi yn y cytundeb grant
- cynaliadwyedd derbynnydd y grant
- amcanion, canlyniadau ac allbynnau clir ar gyfer y cyllid

Caiff y rheswm dros bob cynllun grant ei drafod gan Fwrdd Rheoli Cymwysterau Cymru cyn y bydd swyddogion yn dechrau gofyn am gynigion gan dderbynwyr posibl. Rhaid i'r Bwrdd Rheoli gymeradwyo pob cynllun grant cyn y caiff llythyrau cynnig eu hanfon at dderbynwyr. Byddant hefyd yn ystyried blaenoriaethu cynlluniau a grantiau unigol lle bo angen.

Yn ogystal, lle bydd gwerth grant arfaethedig yn fwy na £550,000, rhaid cael cymeradwyaeth Uned Nawdd Llywodraeth Cymru cyn dyfarnu'r grant yn unol ag Atodlen Awdurdodau Ariannol Cymwysterau Cymru:

Atodlen Awdurdodau Ariannol Cymwysterau Cymru

4. Beth yw'r prif ystyriaethau ar gyfer sefydlu Grantiau?

Wrth sefydlu grantiau byddwn yn ystyried yr egwyddorion canlynol ar gyfer rheoli grantiau'n dda (fel y nodir gan Swyddfa Archwilio Cymru).

i. Eglurder meini prawf ac amcanion

Byddwn yn sicrhau bod pob grant:

- yn nodi ym mha ffordd mae'n cyfrannu at bolisïau a blaenoriaethau Cymwysterau Cymru
- yn meddu ar ganlyniadau neu allbynnau prosiect sydd wedi'u diffinio'n glir gyda safonau ansawdd ategol
- yn nodi'r modd y bydd Cymwysterau Cymru yn mesur y canlyniadau neu'r allbynnau a sut y bydd y rhain yn diwallu anghenion dysgwyr
- yn cynnwys safonau rheoli prosiect

- yn cynnwys safonau rheolaeth ariannol
- yn meddu ar amodau cadarn ategol
- yn diffinio ‘perfformiad gwael’ a'r camau i'w cymryd i'w unioni
- yn manylu ar yr adnoddau sydd eu hangen
- lle y bo'n briodol, yn nodi'r ffordd y bydd yn cefnogi dyletswyddau Cymwysterau Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 o ran datblygu cynaliadwy a chydlyniant cymdeithasol
- lle y bo'n briodol, yn nodi'r ffordd y bydd yn cefnogi dyletswyddau Cymwysterau Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- nodi sut y cafodd Safonau'r Gymraeg eu hystyried.

ii. **Lleihau cymhlethdod i'r eithaf**

Byddwn yn anelu at wneud y cytundeb grant a'r broses o'i reoli:

- yn syml ac yn gymesur
- yn gyson
- yn glir ac yn effeithiol o ran ei gydgysylltu
- yn dryloyw ac yn atebol

Bydd hyn yn sicrhau nad ydym yn gosod unrhyw faich diangen ar dderbynwyr grantiau.

iii. **Ystyried hyfywedd, adnoddau a gallu derbynwyr**

Yn ystod y cam cynnig byddwn yn asesu hyfywedd, adnoddau a gallu derbynwyr grant posibl ac yn lliniaru unrhyw risgiau a nodir drwy gynyddu'r gwaith monitro wrth i'r prosiect gael ei chyflawni. Gellir cynnal asesiad statws ariannol o bob derbynnydd posibl er mwyn rhoi sicrwydd o ran eu gallu i gyflawni'r canlyniadau a'r allbynnau sy'n ofynnol o dan ddyfarniad y grant. Efallai y byddwn yn asesu risg ariannol drwy ddefnyddio asiantaeth gwrio credyd yn y lle cyntaf. Os bydd adroddiad credyd yn codi pryderon ynglŷn â hyfywedd y sefydliad sy'n gwneud cais am grant, gofynnir am farn y Pennaeth Cyllid ac os tybir ei fod yn gymesur â maint y grant ac unrhyw risgiau a nodwyd, gellir cynnal gwiriadau pellach megis adolygu cyfrifon archwiliedig, cyfrifon rheoli, rhagolygon llif arian a rhagolygon cynllun busnes.

iv. **Cynllunio a rheoli da.**

Byddwn yn cynllunio ac yn rheoli grantiau i sicrhau y caiff y canlyniadau neu'r allbynnau bwriedig eu cyflawni mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian i bwrs y wlad. Rhaid i ni allu dangos i'r cyhoedd bod yr arian yn cael ei weinyddu a'i wario mewn ffordd deg a thryloyw.

v. **Amodau grant cadarn**

Byddwn yn datblygu amodau grant cadarn ac yn cynnwys y rhain yn y pecyn cyflwyno cynnig ac yn y llythyr cynnig grant.

vi. **Asesu a lliniaru risg**

Rhaid i dderbynwyr grantiau ddangos trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Rhaid i dderbynwyr grantiau roi gwybod i ni ar unwaith os caiff unrhyw un o'i swyddogion sy'n ymdrin â chyllid cyhoeddus ei amau o weithgarwch twyllodrus. Bydd staff Cymwysterau Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio arian grant yn cael hyfforddiant rheoli risg o bryd i'w gilydd. Byddant yn defnyddio'r cofrestri risg sy'n cwmpasu cylch oes llawn pob cynllun grant ac yn eu hadolygu o leiaf bob chwarter.

Byddwn yn ystyried cynaliadwyedd gweithgareddau a ariennir yn gyhoeddus ac yn gofyn i bob derbynnydd grant ddarparu strategaeth ymadael ar gyfer pob grant ar ddechrau'r broses a fydd yn tynnu sylw at unrhyw risgiau i Cymwysterau Cymru ac i'r derbynnydd a allai fodoli ar ddiwedd y cyfnod grant. Byddwn yn ceisio rhoi rhybudd o'n bwriadau o leiaf tri mis cyn diwedd y cyfnod grant

vii. **Monitro parhaus**

Bydd lefel ac amlder ein gwaith monitro yn gymesur â'r risg. Fel gofyniad sylfaenol, gofynnir i dderbynwyr gyflwyno adroddiad o leiaf tair gwaith y flwyddyn, o bosibl yn gysylltiedig â thymhorau'r ysgol a choleg, ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r canlyniadau neu'r allbynnau a nodwyd ynghyd ag unrhyw broblemau a all effeithio ar gyflawni, gan gynnwys eu sefyllfa ariannol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni gymryd camau unioni amserol lle bo angen.

Byddwn yn cymryd camau gweithredu cadarn pan gaiff grantiau eu camddefnyddio a byddwn yn atal y cyllid, gan adennill symiau priodol lle bo angen ac, lle bydd cyllido'n parhau, yn atgyfnerthu'r gofynion ar dderbynwyr ac yn monitro trefniadau cyn rhyddhau cyllid pellach.

Dylai adroddiadau ar berfformiad gan dderbynwyr grantiau gynnwys i ba raddau y mae'r grant yn sicrhau prif nodau Cymwysterau Cymru (a gyhoeddwyd ar ein gwefan) yn ogystal â mynd i'r afael â chyflawni canlyniadau neu allbynnau mesuradwy ar unwaith. Caiff mesurau priodol ar gyfer canlyniadau neu allbynnau ar gyfer dysgwyr eu diffinio yn y llythyr cynnig grant.

viii. **Cadw cofnodion**

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal rheoli cofnodion da ac yn disgwyl y bydd derbynwyr grantiau yn gwneud yr un fath. Byddwn yn defnyddio ein system rheoli cydberthnasau cwsmer a rheoli dogfennau i wneud pob cyfathrebiad yn amlwg a byddwn yn defnyddio ein system gyllid i gofnodi pob taliad grant. Byddwn yn datblygu templedi i gofnodi hawliadau, monitro, amrywiadau a gwerthuso.

ix. **Gwerthuso - dros dro a therfynol**

Byddwn yn cynnal gwerthusiad terfynol ar ddiwedd oes pob grant a, lle y bo'n briodol, gwerthusiad dros dro yn ystod ei oes lle bydd oes y grant yn hirach na 12 mis a / neu lle tynnwyd sylw at broblemau mewn perthynas â chyflawni'r canlyniadau neu'r allbynnau y cytunwyd arnynt gan y drefn monitro.

x. **Mynd i'r afael â pherfformiad gwael**

Byddwn yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael a hawliadau nad oes tystiolaeth gywir na digonol ar eu cyfer. Bydd yn rhaid cyflwyno hawliad wedi'i gwblhau'n gywir gyda phob tystiolaeth ofynnol cyn y gwneir taliad. Tynnir sylw'r derbynnydd at ddiffyg cynnydd tuag at y canlyniadau neu'r allbynnu y cytunwyd arnynt naill ai'n ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb (a gadarnheir yn ysgrifenedig) gyda chynllun gweithredu a therfynau amser y cytunwyd arnynt er mwyn unioni'r sefyllfa. Gall perfformiad gwael mynych olygu tynnu'r grant yn ôl. Bydd diffiniad o berfformiad gwael wedi'i nodi yn amodau'r grant ynghyd â pha ddulliau unioni sydd ar gael i ni. Gallwn rannu gwybodaeth mewn perthynas â pherfformiad gwael mynych gyda chyrff cyhoeddus eraill sy'n cyfrannu at ariannu derbynnydd y grant.

xi. **Sicrwydd annibynnol**

Gall gweinyddu grantiau fod yn rhan o'r cynllun archwilio blynyddol

Os byddwn o'r farn y bydd sicrwydd allanol ar gyfer haliadau yn angenrheidiol, byddwn yn ystyried gyda'n harchwilwyr yr angen i dderbynwyr grantiau ddarparu tystysgrifau archwilio i Cymwysterau Cymru fel rhan o'r broses hawlio ac os felly, pa archwilwyr y byddwn yn eu nodi fel y rhai a all ardystio hawliadau.

Perchennog y polisi	Elizabeth Frizi, Pennaeth Caffael
Dyddiad cymeradwyo	08/06/2016
Corff cymeradwyo	Y Bwrdd Rheoli
Dyddiad adolygu'r polisi	30/06/2017
Cynulleidfa'r polisi	Cymwysterau Cymru, derbynwyr grantiau a derbynwyr grantiau posibl
Cyhoeddwyd yn Fewnol/Allanol	Cyhoeddwyd yn fewnol ac yn allanol